Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Dyddiad: 15 Ionawr 2020
Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd
Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2020-21

1. Pwrpas

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 15 Hydref yn eu gwahodd i roi tystiolaeth ar eu cynigion Cyllideb Ddrafft a gofyn iddynt ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gynigion cyllideb Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020-21, ac mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

3. Trosolwg o'r Gyllideb

	2020-21
Refeniw	**£ miliwn**
Gwaelodlin DEL 2019-20 fel yr oedd yng Nghyllideb Mehefin	8001.040
Addasiadau sylfaenol	(17.542)
Dyraniad MEG	385.000
Trosglwyddiadau MEG i MEG	(2.060)
DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21	**8366.438**
Cyfalaf	
Gwaelodlin Cyfalaf fel yr oedd yng Nghyllideb Derfynol 2019-20	338.488
Dyraniad MEG	40.000
Addasiad sylfaenol	(4.000)
DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21	**374.488**
Cyfanswm Cyffredinol MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	**8740.926**

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru.

Dangosir manylion yr holl drosglwyddiadau yn Atodiad A y papur hwn.

4. Ymagwedd at gynigion y Gyllideb

Mae'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ategu ein huchelgeisiau i wella iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Cyflawnir hyn drwy gyflawni'r tri amcan a nodir yn Ffyniant i Bawb: gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb ac adeiladu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell. Rydym wedi cymryd ymagwedd hirdymor wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2020-21, gyda phwyslais ar gyflawni ein gweledigaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor integredig ar gyfer y dyfodol fel y nodir yn *Cymru iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol*.

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y refeniw craidd a'r cyllid cyfalaf ar gyfer GIG Cymru, ynghyd â chyllid i ategu iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chymorth i blant. Rydym yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi yn GIG Cymru ac rydym yn buddsoddi £385 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol a £40 miliwn o arian cyfalaf.

Cymru Iachach
Mae Cymru Iachach yn cwrdd â'n hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i gyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus i gael effaith ar iechyd a llesiant gydol oes. Mae pwyslais ar atal salwch a chynorthwyo pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y gallant.

Buddsoddi yn GIG Cymru
Yn 2020-21, byddwn yn buddsoddi £342.3 miliwn arall o arian refeniw yn ein GIG, gan godi cyfanswm cyllid refeniw y GIG i dros £8 biliwn. Mae hyn yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd o safon, gan sicrhau mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl a sicrhau canlyniadau iechyd da.

Mae ein cynlluniau gwariant craidd ar gyfer y GIG yn parhau i fod yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd yn adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield yn 2014 a'r Sefydliad Iechyd yn 2016 ar lefelau'r buddsoddiad sy'n ofynnol i gynnal gwasanaethau diogel craidd, wedi eu diweddaru i ymgorffori'r buddsoddiad ychwanegol mewn dyfarniadau cyflog ar gyfer ein staff GIG hynod werthfawr nad ydynt yn dod o dan yr adroddiadau hyn.

Yn ogystal â chyllido twf costau craidd yn GIG Cymru, byddwn yn buddsoddi mewn trawsnewid y modd y darperir gwasanaethau iechyd ac mewn technolegau newydd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau newydd mewn meddygaeth fanwl, gan gynnwys mewn Cynhyrchion

Meddyginiaethol Therapiwtig Uwch a genomeg, ategu datblygiad gwasanaethau trawma mawr, a pharhau i fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant gweithlu'r GIG yn y dyfodol.

Bu'n rhaid i'r gyllideb hon hefyd wneud darpariaeth ar gyfer costau uwch setlo hawliadau esgeulustod clinigol a ddigwyddodd o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ostwng y Gyfradd Gostyngiad Anafiadau Personol.

Buddsoddi mewn cymorth blynyddoedd cynnar i blant a phobl ifanc
Buddsoddi £20 miliwn yn y cynnig Gofal Plant a, thrwy Raglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, byddwn yn buddsoddi £3.5 miliwn arall yn y dull Dechrau'n Deg, gan gynyddu'r dyraniad o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i £6.3 miliwn yn 20-21.

Buddsoddi mewn gweithgareddau ataliol sy'n mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach afiechyd
Byddwn yn parhau i ategu blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru ac yn buddsoddi mewn gweithgareddau ataliol drwy barhau i weithredu nodau Cymru Iachach.
Yn 20-21 byddwn yn buddsoddi £5.5 miliwn i ategu'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae hwn yn ymrwymiad ledled y Llywodraeth ac yn nodi gweledigaeth 10 mlynedd i ddatblygu amgylchedd sy'n darparu ac yn galluogi cyfleoedd er mwyn i'r dewis iach fod yn ddewis hawdd. Ochr yn ochr, bydd yn ceisio sicrhau y bydd pobl ledled Cymru yn cael eu grymuso i gymryd cyfrifoldeb am eu pwysau a'u hiechyd.

Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn sawl ymagwedd ataliol arall fel y manylir isod.

Cyfalaf
Bydd y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn cynnwys arian cyfalaf ychwanegol o £40 miliwn. Mae hyn wedi ei wrthbwyso gan ostyngiad o £4 miliwn mewn cyllid mewn perthynas â chyllid Trafodion Ariannol sy'n cael ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn golygu y bydd £374 miliwn o gyfalaf yn cael ei ddarparu y flwyddyn nesaf i fuddsoddi yn seilwaith y GIG i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a hygyrch o ansawdd uchel ac i fwrw ymlaen â thrawsnewid y ddarpariaeth gofal iechyd. Mae hwn yn swm tebyg i eleni.

Bydd gwariant ar y buddsoddiad hwn y flwyddyn nesaf yn cynnwys yr elfen olaf o gyllid ar gyfer adeiladu Ysbyty Athrofaol y Grange. Disgwylir i'r ysbyty modern 470 gwely hwn agor yng ngwanwyn 2021. Mewn mannau eraill, bydd gwaith ailddatblygu a moderneiddio sylweddol yn parhau i ddatblygu yn Ysbyty'r Tywysog Charles ynghyd ag uwchraddio'r ddarpariaeth newyddenedigol yn Ysbyty Singleton ac Ysbyty Glangwili.

Yn ogystal â chynlluniau o fewn y sector acíwt, mae'r gyllideb gyfalaf yn cynnwys trydedd gyfran y £72 miliwn dros dair blynedd i ddarparu piblinell o brosiectau gofal sylfaenol a chymunedol fel rhan o weithredu ymrwymiad Symud Cymru Ymlaen i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig. Bydd y biblinell hon yn arwain at gyflawni 19 prosiect ledled Cymru erbyn 2021.

Ar lefel Cymru gyfan, mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu ar gyfer rhaglenni cenedlaethol ar offer delweddu a diagnostig ynghyd ag ategu datblygiadau digidol a gwybodeg.

Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb

Roedd y gyllideb fanwl a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr yn nodi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy BEL. Nodir dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau i'r gyllideb yn Atodiad A. Ni osodwyd unrhyw ddyraniad refeniw dangosol ar gyfer 2021-22.

5. Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol

Yn 2018-19, methodd pedwar bwrdd iechyd lleol â'u dyletswydd ariannol statudol i adennill costau dros dair blynedd (Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda). Dyma'r sefyllfa bresennol ar gyfer pob un o'r byrddau hyn yn 2019-20:

- BIP Bae Abertawe (Abertawe Bro Morgannwg, gynt). Yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, derbyniodd Llywodraeth Cymru na fyddai Bwrdd Iechyd Bae Abertawe mewn sefyllfa i baratoi cynllun tair blynedd y gellir ei gymeradwyo, a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Bwrdd Iechyd baratoi cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2019-20 a fyddai'n sicrhau cydbwysedd ariannol. Er mwyn ategu'r bwriad i gyflawni'r gofyniad hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghorwyr rheoli KPMG i ymgymryd ag ymyriad cynllunio ariannol i'r Bwrdd Iechyd, dan oruchwyliaeth yr Uned Cyflawni Cyllid. Disgwylir i KPMG gwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Bwriad yr ymyriad yw profi a chadarnhau eu cynlluniau presennol ar gyfer 2019-20, a rhoi'r modd i'w cyflawni. Cynhwysir hefyd asesiad o drefniadau cyflawni sefydliadol i nodi unrhyw faes i'w wella, a disgwylir iddo nodi bod angen mynd i'r afael â materion sylweddol. Bydd yr ymyriad hefyd yn datblygu piblinell o gyfleoedd effeithlonrwydd a fydd yn cynorthwyo cynnydd tuag at gynaliadwyedd ariannol i'w ddangos yng nghynllun 2020-21 y Bwrdd Iechyd.

- BIP Betsi Cadwaladr. Nid oedd modd i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, chwaith, baratoi cynllun tair blynedd y gellir ei gymeradwyo ar gyfer 2019-20, ac mae'n gweithio yn unol â chynllun gweithredu blynyddol. Darparwyd cyllid ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru i'w galluogi i gomisiynu arbenigedd allanol gan yr ymgynghorwyr rheoli PwC i'w gynorthwyo i ddatblygu cynllun ariannol cadarn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfanswm rheoli diffyg o £25 miliwn i'r Bwrdd Iechyd, ond ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn rhagweld na fydd yn cyflawni hyn. Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi penodi cyfarwyddwr adfer a chymorth rheoli allweddol arall. Er nad yw'r Bwrdd Iechyd yn debygol o gyrraedd ei gyfanswm rheolaeth, disgwylir i'r cymorth ychwanegol sicrhau gwell canlyniad ar gyfer 2019-20 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

- BIP Caerdydd a'r Fro. Llwyddodd Llywodraeth Cymru i gymeradwyo cynllun tair blynedd cytbwys ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2019-20 i 2021-22, gan gynnwys cyflawni canlyniad cytbwys yn 2019-20. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni blwyddyn gyntaf y cynllun hwn.

- BIP Hywel Dda. Nid oedd modd i Fwrdd Iechyd Hywel Dda ddatblygu a chymeradwyo cynllun tair blynedd a oedd yn gytbwys yn ariannol yn 2019-20, ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu yn unol â chynllun blynyddol. Pennodd Llywodraeth Cymru gyfanswm rheoli diffyg o £15 miliwn i'r Bwrdd Iechyd yn 2019-20, ac er mwyn ategu'r gwaith o gyflawni'r cyfanswm rheoli

hwn, comisiynodd yr ymgynghorwyr rheoli KPMG hefyd i ymgymryd ag ymyriad cynllunio ariannol. Cwblhawyd y gwaith hwn yn ddiweddar ac mae'r adroddiad terfynol yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Iechyd a'r Uned Cyflawni Cyllid. Unwaith eto, mae'r ymyriad hwn wedi profi ei gynllun ar gyfer 2019-20 ac yn asesu gallu cyflawni sefydliadol, yn ogystal â datblygu piblinell o gyfleoedd ar gyfer y blynyddoedd a ddaw.

6. Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Meysydd Pryder Penodol i'r Pwyllgorau:

Blaenoriaethu atal/ymyriadau cynnar mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ein nod yw cymryd camau sylweddol i newid ein hymagwedd o driniaeth i atal. Y weledigaeth a sefydlwyd gennym yn *Cymru Iachach* yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyriadau cynnar.

Yn 2020-21 rydym yn parhau i lunio ein dyraniadau cyllideb yn unol â'r diffiniad o wariant ataliol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, a ddisgrifir ar draws meysydd sylfaenol, eilaidd, trydyddol ac acíwt. Rydym yn dyrannu cyllid i nifer o fentrau sy'n ategu'r ffocws ar atal ac ymyriadau cynnar, fel a ganlyn:

Atal Sylfaenol

Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach

Dyrennir £5.5 miliwn i ategu'r Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra ledled Cymru. Mae'n nodi cynllun 10 mlynedd i flaenoriaethu ymyriadau cynnar a newid ymddygiad ar bob lefel i newid ein harferion a hyrwyddo gweithgarwch iach. Mae'r strategaeth yn ymrwymiad allweddol tuag at ymagwedd draws-lywodraethol at leihau gordewdra yng Nghymru ar raddfa'r boblogaeth gyfan. Mae'r strategaeth wedi ei datblygu ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Mae hyn wedi nodi'r angen am ymagwedd newydd sy'n cyfuno newid ymddygiad unigol â newid yn yr amgylchedd a'r system. Bydd yn defnyddio cyfuniad o gyllid, polisïau a deddfwriaeth i ddatblygu ymagweddau drwy ein hamgylchedd i ganolbwyntio'n benodol ar atal. Bydd hefyd yn defnyddio ymagweddau wedi eu targedu mewn meysydd amddifadedd a bydd yn cynorthwyo'r rhai sydd dros bwysau neu'n ordew yn barod drwy amrywiaeth o wasanaethau atal, ymyriadau cynnar a gwasanaethau arbenigol. Yn ychwanegol at y £5.5 miliwn o gyllid newydd sy'n cael ei ddyrannu o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 20-21, bydd y gwaith gweithredu ehangach, a fydd yn cychwyn yn 2020, yn dwyn ynghyd raglenni gwaith o bob rhan o bortffolios sydd i gyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nodau a nodir yn y strategaeth.

Imiwneiddio

Erbyn diwedd 2019-20, byddwn wedi cyflwyno rhaglenni brechu newydd ar gyfer Feirws Papiloma Dynol i fechgyn. Dechreuodd y rhaglen imiwneiddio Feirws Papiloma Dynol yn 2008, i ferched yn unig i ddechrau. Mae dau o'r straenau Feirws Papiloma Dynol yn achosi dros 70% o ganser ceg y groth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gostyngiad mawr yn y cyfraddau heintio gyda'r ddau brif fath o Feirws Papiloma Dynol sy'n achosi canser wedi dangos effeithiolrwydd y rhaglen hon. Bydd ehangu'r rhaglen frechu Feirws Papiloma Dynol i gwmpasu bechgyn yn 2019-20 hefyd yn helpu i amddiffyn rhag canserau'r geg a'r rhefr.

Bydd rhaglen brechu rhag y ffliw'r GIG ar gyfer gweithwyr gofal hefyd yn cael ei hehangu yn 2019-20 i gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cartref. Bydd hyn yn helpu i amddiffyn rhag lledaeniad y ffliw a hefyd yn ategu cydnerthedd y gweithlu ar adeg heriol.
Bydd cyllid ar waith yn 20-21 i ategu'r ddwy raglen hyn.

Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar
Mae cyllid craidd Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn pontio gwariant ataliol sylfaenol ac eilaidd. I adeiladu ar hyn, yn 20-21 dyrennir £3.5 miliwn ychwanegol o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu rhagor ar waith Rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar sy'n sail i'n blaenoriaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynyddu'r dyraniad o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i £6.3 miliwn ar gyfer 20-21. Mae'r arian ychwanegol yn cynrychioli'r cam cyntaf mewn ehangiad tymor hwy o gymorth i'r blynyddoedd cynnar a fydd yn helpu i ddatblygu system fwy ataliol sydd:

- yn mynd i'r afael â llanw cynyddol iechyd gwael
- yn cyfrannu at atal llif plant sy'n mynd i ofal mewn ffordd ddiogel
- yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y canlyniadau i'r plant

Deintyddiaeth
Byddwn yn parhau i fuddsoddi £3.7 miliwn yn y Cynllun Gwên - Rhaglen Wella Genedlaethol ar Iechyd y Geg i Blant. Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys ymwelwyr iechyd a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill. Y nodau yw helpu i ddechrau arferion da yn gynnar drwy roi cyngor i deuluoedd sydd â phlant ifanc, darparu brwsys dannedd a phast dannedd, ac annog mynd i bractis deintyddol cyn pen-blwydd cyntaf plentyn.

Atal Eilaidd a Thrydyddol
Mae'r rhaglenni hyn yn pontio'r ddwy elfen hyn o wariant ataliol:

Y Gronfa Gofal Integredig
Yn 2020-21 bydd y Gronfa Gofal Integredig (refeniw) o £89 miliwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu a phrofi modelau gwasanaeth ataliol, integredig ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth, pobl sydd ag anableddau dysgu, plant sydd ag anghenion cymhleth, plant mewn gofal neu sydd mewn risg o fynd i ofal a gofalwyr. Mae cyfres o wasanaethau wedi cael eu datblygu ar draws y continwwm atal yn amrywio o gysylltwyr/llyw-wyr cymunedol i wasanaethau i helpu pobl i aros yn iach gartref ac atal gorfod eu derbyn i'r ysbyty.

Yn 2020-21 gofynnir i ranbarthau ganolbwyntio ar symud hyd yn oed ymhellach tuag at y canlynol:

- dod o hyd i ymagweddau/atebion rhanbarthol
- buddsoddi yn y sector gwerth cymdeithasol fel partner cyflawni allweddol
- tystiolaethu effaith gwasanaethau gan ddefnyddio'r fethodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau
- meddwl am brif ffrydio gwasanaethau/yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen Cronfa Gofal Integredig

Mae £15 miliwn o arian y Gronfa Gofal Integredig wedi ei ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol o 2018-19 ymlaen i'w ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ataliol ac ymyriadau cynnar i blant ar ffiniau gofal. Bydd hyn yn cryfhau trefniadau integredig rhwng awdurdodau

lleol, Byrddau Iechyd a'r Trydydd Sector i weithio ar y cyd. Bydd yn helpu i ddarparu cymorth i deuluoedd ac osgoi sefyllfaoedd argyfyngus rhag datblygu. Disgwyliwn i'r cyllid gael ei ddefnyddio i leihau'r angen i blant fynd i ofal mewn ffordd ddiogel. Bydd yn cynnwys gwaith yn ymwneud ag ailuno teuluoedd a darparu cymorth therapiwtig i blant mewn gofal neu blant sydd wedi eu mabwysiadu, gan leihau'r angen am fathau mwy dwys o gymorth.

Pan fydd plant yn mynd i ofal, mae eu cynorthwyo i adael gofal yn ddiogel - er enghraifft, drwy fabwysiadu - yn hynod bwysig. Mae £2.3 miliwn wedi ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn 2020-21 i'w galluogi i gryfhau eu darpariaeth o wasanaethau mabwysiadu - fel y disgrifir isod.

Gwasanaethau Mabwysiadu
Mae £2.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth mabwysiadu yng Nghymru i gryfhau a gwella'r gwasanaethau presennol, ar gyfer mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc a fydd yn helpu awdurdodau lleol i wella canlyniadau i blant a datblygu teuluoedd mabwysiadol cydnerth. Mae plant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu ymhlith y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Maent yn blant y mae dewisiadau amgen eraill ar eu cyfer wedi cael eu disbyddu ac a fyddai fwyaf tebygol o barhau i 'dderbyn gofal' ar gyfer eu plentyndod cyfan pe na baent yn cael eu mabwysiadu. Mae'n bwysig bod mabwysiadu yn cynnig y cyfle gorau i blentyn ffynnu mewn amgylchedd teuluol diogel lle mae ei anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu a lle gall fwynhau'r un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall. Bydd yr arian hwn yn ategu ymagweddau newydd at baru yn gyflymach ac yn gryfach, gan roi sefydlogrwydd ac anogaeth drwy deulu mabwysiadol i ragor o blant. Bydd hefyd yn sicrhau bod cymorth ar sail anghenion a chryfderau ar gael drwy gydol y siwrnai fabwysiadu. Yn y pen draw, bydd hyn o gymorth ag atal aflonyddwch mabwysiadu, gan leihau'r posibilrwydd y bydd plant yn ailymuno â'r system ofal.

Sgrinio Canser y Coluddyn
Gwneir buddsoddiad pellach yn 20-21 i hyrwyddo optimeiddio'r rhaglen sgrinio'r coluddyn yng Nghymru. Dangoswyd bod sgrinio canser y coluddyn yn rheolaidd yn lleihau'r risg o farw o ganser y coluddyn gymaint â 16%, gyda thriniaethau newydd yn cynyddu cyfraddau goroesi. Bydd optimeiddio rhaglen sgrinio'r coluddyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at atal a chanfod canserau'r coluddyn yn gynharach fel rhan o'r Cynllun Cyflenwi Canser yng Nghymru.

Gwasanaeth Diogelu Iechyd Gwladol
Mae £6.8 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn 20-21 i gryfhau'r Gwasanaeth Diogelu Iechyd Gwladol. Mae hwn yn amrywiaeth o swyddogaethau amddiffyn iechyd ataliol a ddarperir ar draws GIG Cymru. Bydd y cyllid yn helpu i atal heintiau, nodi a lliniaru risgiau heintus i unigolion a'r boblogaeth ehangach a gwella canfod a rheoli heintiau yn gynnar pan fyddant yn codi, gan atal niwed i unigolion a lleihau'r risg o drosglwyddo heintiau ymlaen. Bydd y buddsoddiad yn datblygu cydnerthedd y system drwy gryfhau'r rhwydwaith labordy a gwella profion ar gyfer afiechydon mewn ysbytai. Bydd y mesurau hyn yn gwella'r ffordd o nodi a rheoli effaith a lledaeniad haint mewn ysbytai a'r gymuned ehangach ac yn helpu i atal heintiau rhag digwydd yn y lle cyntaf.
Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi egwyddorion craidd iechyd a llesiant gwell, gwasanaethau o ansawdd gwell a mwy hygyrch, gwasanaethau gwerth uwch a gweithlu cynaliadwy a llawn cymhelliant. Bydd gan y model cenedlaethol hwn safonau cenedlaethol, gyda chynllunio'r gweithlu cenedlaethol a buddsoddi mewn technoleg yn galluogi newid. Bydd buddsoddi yn y

gwasanaeth hwn yn gwella ansawdd a diogelwch ac yn gwneud gwasanaethau'n deg ac yn gynaliadwy.

Ymagwedd Ysgol Gyfan
Bydd £0.5 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i ymestyn cyflwyno ymagwedd ysgol gyfan y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn cynyddu'r dyraniad o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 20-21 i £3 miliwn. Bydd dyraniad o £2 miliwn ychwanegol hefyd o'r MEG Addysg i ategu'r maes hwn. Bydd y buddsoddiadau hyn yn ategu ymestyn cwnsela mewn ysgolion i flwyddyn ysgol ychwanegol (blwyddyn 5) ac yn ymestyn ymhellach y cynlluniau peilot mewngymorth presennol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer 20-21 ar ei hyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i atal materion iechyd meddwl a llesiant mwy difrifol rhag cynyddu ymysg plant oedran ysgol, a bydd symud at ymyriadau cynharach fyth yn ategu'r ymagwedd hon ymhellach.

Cymorth y Trydydd Sector
Yn 2020-21 byddwn yn cychwyn cylch newydd tair blynedd Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy y Trydydd Sector. Mae £1.2 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y grant ar gyfer 20-21 a, thros y tair blynedd nesaf, byddwn yn cynyddu cyfanswm ymrwymiad y grant hwn £4.9 miliwn, sy'n golygu bod cyfanswm y buddsoddiad yn werth hyd at £25.9 miliwn. Un o ofynion allweddol y cynlluniau a fydd yn cael eu cyllido yw eu bod yn cyflawni ymyriadau cynnar a chamau ataliol sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth yn unol â blaenoriaethau Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb a Chymru Iachach. Bydd y prosiectau a gyllidir yn ategu'r nodau a'r egwyddorion llesiant sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y cynlluniau sy'n cael eu cyllido yn cefnogi gofalwyr, plant a phobl ifanc, anableddau corfforol neu synhwyraidd, anableddau dysgu a phobl hŷn.

Yn ychwanegol at yr uchod;
Cymru Iachach - Atal a Blynyddoedd Cynnar
Fel rhan o gyllideb 2019-20, dyrannwyd £10 miliwn ar gyfer gwaith Atal a Blynyddoedd Cynnar. Dyrannwyd £2.8 miliwn o hyn i ategu Rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar. Dyrannwyd y gweddill i ategu amrywiaeth o ymyriadau ar sail tystiolaeth y cytunwyd arnynt rhwng Byrddau Iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ynghyd â dyraniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru i edrych ar uwchraddio cynlluniau atal cyffredinol a gwella arweinyddiaeth system ar lefel genedlaethol.

Fel rhan o'r dyraniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru bydd y corff hwnnw'n bwrw ymlaen â'r flaenoriaeth Galluogi Trawsnewid o fewn Datblygu Cymru Iachach. Bydd hyn yn cyflawni nifer o brosiectau cydberthynol, gan gynnwys:

- adolygiad o dystiolaeth ryngwladol i nodi enghreifftiau a dysgu gan wledydd sydd wedi llwyddo i symud tuag at atal;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall y rhwystrau a'r ysgogiadau ar gyfer buddsoddi mewn atal;
- pennu llinell sylfaen gwariant cyfredol ar atal a mecanwaith i olrhain y newid tuag at ymagwedd fwy ataliol at gyllidebu.

Fel rhan o'r rhaglen waith hon, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynorthwyo â gwaith pellach i helpu i fireinio ein hymagwedd at fesur ein gwariant atal mewn rowndiau cynllunio cyllideb yn y dyfodol.

Ategu cyllid cynaliadwy, tymor hwy ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
Bydd gwaith y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yn parhau yn 20-21. Sefydlwyd y grŵp yn 2018 i ystyried sut gall Llywodraeth Cymru ymateb i'r angen cynyddol am ofal cymdeithasol a'r costau cysylltiedig. Hyd yn oed gyda'n camau ymarferol ar atal ac ymyriadau buan, ac o fewn gofal cymdeithasol ei hun bod pwyslais ar hyrwyddo annibyniaeth unigolyn sy'n cael ei yrru gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae amrywiaeth o dueddiadau hirdymor gan gynnwys pobl sy'n byw o'u genedigaeth â chyflyrau cymhleth a demograffeg poblogaeth sy'n heneiddio yn awgrymu y bydd yr angen am ofal a chymorth yn cynyddu.

Gyda dyfodiad pwerau codi treth Cymru newydd Llywodraeth Cymru a defnyddio syniad yr Athro Gerry Holtham am ardoll, mae'r grŵp wedi bod yn archwilio'r dewisiadau amgen ar gyfer codi cyllid ychwanegol i helpu i ateb y galw cynyddol.

Ochr yn ochr â phenderfynu sut gallai cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol gael ei godi, ystyriaeth allweddol y Grŵp Rhyngweinidogol yw archwilio sut gellid defnyddio adnoddau ychwanegol yn fwyaf effeithiol i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth pobl yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

Bydd y Grŵp Rhyngweinidogol yn cynnal asesiad cychwynnol yn ystod hanner cyntaf 2020 o hyfywedd ac effeithiolrwydd cyflwyno ardoll, neu ddull arall, fel ffordd o godi cyfraniad at y cyllid ychwanegol y bydd ei angen ar ofal cymdeithasol.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi comisiynu tri darn o ymchwil i ddarparu sylfaen dystiolaeth gref i lywio ei benderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i ddadansoddi taflwybrau gwariant gofal cymdeithasol posibl dros y tymor canolig i'r tymor hir yn seiliedig ar ragdybiaethau gwahanol ynghylch ysgogwyr angen ac effeithiolrwydd polisi wrth gymedroli costau'r angen posibl hwnnw, gan gynnwys modelau lleol di-dor o iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r grŵp yn cynnwys y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y Cadeirydd), y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chymorth swyddogion polisi perthnasol.

Hyrwyddo integreiddio'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Yn 2020-21, dyrennir £89 miliwn o'r Gronfa Gofal Integredig tuag at brosiectau refeniw o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a dyrennir £40 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol. Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn cynorthwyo byrddau partneriaeth rhanbarthol wrth ddatblygu a phrofi modelau integredig newydd ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Gronfa'n hyrwyddo ac yn galluogi'r pum ffordd o weithio'n uniongyrchol, yn benodol atal, integreiddio, cydweithredu a chynnwys.

Mae'r Gronfa yn helpu i ryddhau gwelyau ysbyty a lleihau'r baich ar ofal brys drwy gefnogi datblygiad prosiectau ataliol integredig a fydd nid yn unig yn darparu gwell canlyniadau a phrofiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth ond a fydd hefyd â buddion osgoi costau drwy arbed arian ac adnoddau yn y tymor hir i'r gwasanaeth iechyd.
Bydd y Gronfa'n parhau i gymryd ymagwedd ataliol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu a phrofi modelau gwasanaeth ataliol, integredig ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth, pobl sydd ag anableddau dysgu, plant sydd ag anghenion cymhleth, plant mewn gofal neu sydd mewn risg o fynd i ofal a gofalwyr. Mae cyfres o wasanaethau wedi cael eu datblygu ar draws y continwwm atal yn amrywio o gysylltwyr/llyw-wyr cymunedol i wasanaethau i helpu pobl i aros yn iach gartref ac atal gorfod eu derbyn i'r ysbyty. Er enghraifft, prosiectau i helpu pobl hŷn sydd â salwch hirdymor fel Dementia i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo cydweithredu rhwng y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae llawer o'r prosiectau a'r gwasanaethau yn y Gronfa bellach wedi eu datblygu'n dda ac, yn 20-21, byddant yn parhau i gael eu darparu drwy systemau, prosesau a thimau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, dan arweinyddiaeth a chyfarwyddyd y byrddau partneriaeth rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynlluniau o fewn y gronfa yn cael eu cyflawni a'u bod yn llwyddiannus.

Mae'n ofynnol i brosiectau gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau wrth eu dylunio a'u darparu. Mae cyd-gynhyrchu yn thema allweddol yn rhaglen y Gronfa Gofal Integredig. Mae llawer o brosiectau hefyd yn cefnogi dinasyddion yn uniongyrchol i chwarae mwy o ran yn eu cymunedau eu hunain a chael mynediad at wasanaethau/cyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael iddynt yn lleol. Un enghraifft yw cynnwys cymorth i gaffis gael eu hadeiladu a'u gweithredu fel mentrau cymdeithasol i greu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu. Yn ogystal, mae asiantau/llyw-wyr/cysylltwyr cymunedol bellach yn cael eu cyllido ar draws pob rhanbarth a byddant yn parhau i ddarparu gwasanaeth lleol gwerthfawr i helpu i gysylltu pobl â'r wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i'w helpu i deimlo'n gysylltiedig a byw'n annibynnol yn eu cymuned eu hunain a theimlo'n llai unig ac ynysig.

Sicrhau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy

Addysg a hyfforddiant
Yn sgil cyflwyno'r corff Addysg a Gwella Iechyd Cymru gallwn weld buddion economaidd hirdymor drwy eu rôl yn integreiddio a chynyddu arbenigedd a gallu wrth gynllunio, datblygu, siapio a chynorthwyo'r gweithlu iechyd i sicrhau bod gennym y staff priodol gyda'r sgiliau priodol i ddarparu'r gwasanaeth gorau. Bydd y rôl y bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ei chwarae wrth drawsnewid y gweithlu, ynghyd â Gofal Cymdeithasol Cymru, o ran ail-ddychmygu ac ail-ddyfeisio sut rydym yn gweithio, yn arwain at fuddion economaidd hirdymor.

Am y chweched flwyddyn yn olynol bydd cyllid i gynorthwyo addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru yn cynyddu. Buddsoddir £127.8 miliwn yn 2020/21. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 13% o 19/20 sy'n £15 miliwn yn ychwanegol ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru. Dyma'r lefel uchaf erioed o gyllid a bydd yn ategu'r nifer uchaf erioed o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru. Dros y pum

mlynedd diwethaf mae lleoedd hyfforddi ar gyfer nyrsys wedi cynyddu 54.8% ac mae lleoedd hyfforddi ar gyfer bydwragedd wedi cynyddu 71.2%. Mae gweithlu cyffredinol GIG Cymru wedi tyfu 10.4% dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal, byddwn yn buddsoddi £1.4 miliwn arall i ategu 47 o leoedd hyfforddi Ôl-raddedig Meddygol ychwanegol.

Hyfforddi Gweithio Byw
Ers cyflwyno ein hymgyrch Hyfforddi Gweithio Byw yn 2016 bu gwelliant amlwg yn y gyfradd llenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu. Ym mis Mehefin 2019 fe wnaethom gyhoeddi cynnydd i'r cwota targed ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu o 136 i 160, gan ddechrau yn hydref 2019. Fodd bynnag, mae cyfanswm o 186 o leoedd wedi eu llenwi eleni, gan ragori ar y targed uwch y cytunwyd arno, sef 160 o swyddi. Mae hyn yn cynrychioli'r nifer uchaf o recriwtiaid i hyfforddiant arbenigedd meddygon teulu yn ddiweddar.

Ehangu Addysg Feddygol
Fel rhan o'r cytundeb cyllideb dwy flynedd gyda Plaid Cymru, dyrannwyd cyllid o £7 miliwn yn 2018-19 ac yn 2019-20 ar gyfer cronfa ddatblygu hyfforddiant meddygol israddedig yng ngogledd Cymru. Cymerwyd ymagwedd gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a Phrifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bangor er mwyn cynyddu cyfleoedd addysg feddygol yng ngogledd a chanolbarth Cymru.

Strategaeth y Gweithlu
Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar y cyd yn arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r strategaeth hon fel galluogwr allweddol o ran cyflawni uchelgais 'Cymru Iachach', drwy weithlu ymgysylltiedig a llawn cymhelliant sy'n gymwys, yn cael ei werthfawrogi, yn ystwyth ac yn hyblyg. Un sy'n gallu ymateb yn gyflym i her a chyfleoedd yn y dyfodol.

Yn ogystal â 'Cymru Iachach', bydd cyflawni strategaeth y gweithlu yn cyd-fynd â rhaglenni eraill cenedlaethol ac o eiddo Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhaglen drawsnewid, Hyfforddi.Gweithio.Byw, diwygio contractau, ymgyrch Gofalwn, Datblygu Cymru Iachach a'r cynllun clinigol.

Lleihau a Rheoli Gwariant ar Staff Asiantaethau
Yn ogystal â hyfforddi a recriwtio i weithlu'r GIG, rydym yn gweithio i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl drwy fesurau i leihau gwariant ar asiantaethau a locwm gan ddefnyddio fframwaith rheoli newydd a defnyddio technoleg i sicrhau'r amser a gymerir ar gyfer recriwtio a gweithio i leihau absenoldeb oherwydd salwch drwy amrywiaeth o fesurau sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant y gweithlu.

Lleihau anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig.
Rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i gau'r bwlch rhwng ein cymunedau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig. Mae ein hymrwymiad a'n hymagwedd wedi ei nodi yn ein cynllun iechyd a gofal 10 mlynedd 'Cymru Iachach', sy'n nodi ymagwedd system gyfan at

ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan amlinellu system 'les', sy'n ceisio ategu a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch, a lleihau effaith iechyd gwael ac anghydraddoldeb.

Drwy gyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach byddwn hefyd yn sicrhau bod gennym lwybr clinigol teg a hygyrch, a fydd yn darparu cymorth i oedolion, plant a theuluoedd allu cael mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol. Dyrennir cyllid i hyn drwy Gynllun Cyflenwi 2020-22, a gyhoeddir yn gynnar yn 2020. Byddwn yn canolbwyntio'n llwyr ar leihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd hyn yn ystyried materion yn ymwneud â thlodi bwyd a byddwn yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd i ddatblygu ymagweddau sy'n galluogi newid cadarnhaol.

7. Trawsnewid

Dewiswyd y gweithgareddau a gyllidir gan y Gronfa Drawsnewid oherwydd bod ganddynt y potensial i gael eu graddio i fyny a'u gweithredu'n ehangach ledled Cymru. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ymwybodol y bydd angen i'r gweithgareddau hyn ddod yn fusnes fel arfer a chael eu cyllido o'r cyllidebau presennol unwaith y bydd arian y Gronfa Trawsnewid yn peidio â bod ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch strategaethau ymadael i sicrhau y gall prosiectau llwyddiannus barhau.

Yn y dyfodol mae nifer o feysydd lle byddwn yn canolbwyntio ein sylw, a hefyd cyfleoedd ar gyfer gwaith datblygu pellach ar draws portffolios.

Fel rhan o'r cam nesaf o gyflawni Cymru Iachach byddwn yn sefydlu Gweithrediaeth y GIG; datblygu dewisiadau cynaliadwy ar gyfer cyllido iechyd a gofal cymdeithasol yn wyneb y galw cynyddol; datblygu trefniadau arolygu ar y cyd ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chryfhau'r cysylltiadau rhwng iechyd a thai fel penderfynydd allweddol ar gyfer iechyd a llesiant. Mae rôl tai wedi ei chydnabod fel thema allweddol. Mae Bwrdd Cynghori allanol y Rhaglen Trawsnewid a Bwrdd Rheoli'r Rhaglen Trawsnewid mewnol Llywodraeth Cymru yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli'r sector tai i sicrhau bod ymagwedd gydgysylltiedig â pholisïau tai.

Cynhelir gwaith pellach hefyd ar Gynllun Clinigol Cenedlaethol a sefydlu Hybiau Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella. Rydym hefyd yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i dynnu sylw at yr angen i atal fod yn ganolbwynt i drawsnewid gwasanaethau.

Mae modelau rhyddhau o'r ysbyty sy'n pwysleisio trosglwyddo llyfn i gartrefi pobl eu hunain yn rhan amlwg o lawer o gynigion trawsnewid. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft: cymorth cymunedol a chymorth cynnar; modelau brysbennu a ddarperir gan dimau amlddisgyblaethol (gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd Perthynol); Cysylltwyr Cymunedol sy'n cysylltu pobl ag asedau cymunedol (er enghraifft, cymorth y Trydydd Sector); a rhagnodi cymdeithasol. Mae'r rhain yn eistedd ochr yn ochr â llawer o brosiectau sy'n rhan o'r Gronfa Gofal Integredig, ac yn eu hategu.

Dyluniwyd fframwaith gwerthuso Cymru gyfan mewn cydweithrediad â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a disgwylir adroddiadau cychwynnol ddiwedd mis Rhagfyr 2019.

Mae dyfodol tymor hwy'r Gronfa Trawsnewid dan ystyriaeth, a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn 2020 fel rhan o'r adolygiad gwariant cynhwysfawr disgwyliedig.

Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal digwyddiad dysgu yn cynnwys y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Chwefror. Mae'r ymagwedd gydweithredol hon wedi ei chynllunio i hyrwyddo trafodaeth a chynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth lunio trefniadau ar gyfer gyrru trawsnewid o lefel ranbarthol i lefel genedlaethol, a fydd yn llywio trefniadau cyllido yn y dyfodol.

8. Gofal sylfaenol a gofal yn nes adref

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gofal sylfaenol drwy ddarparu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru, ac yn 2020-21 byddwn yn adeiladu ar y buddsoddiad y cytunwyd arno a ddarparwyd yn 2019-20 ar gyfer y contractau gofal sylfaenol.

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd feintioli'r cyllid, a hefyd y gwasanaethau a'r gweithlu, maent yn bwriadu eu hail-ddarparu yn y gymuned yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Rydym yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y fframwaith ariannol a gyhoeddir wrth gryfhau'r newid hwn mewn gwasanaethau drwy ein proses graffu a chymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. O 2020-21 ymlaen, bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd gyflwyno adroddiadau penodol yn nodi cynnydd ar eu cynlluniau i symud gwasanaethau ac adnoddau i'r gymuned.

Bydd Model Gofal Sylfaenol Cymru yn helpu pobl i gael mynediad amserol at wybodaeth, cyngor, gofal a chymorth yn y cartref, neu'n agos at y cartref. Gall hyn helpu pobl i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach a pharhau i fod yn egnïol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Fel rhan o'r model, mae cerrig milltir cyflawni wedi eu nodi er mwyn sbarduno gweithredu'r Model yn lleol.

Rydym wedi buddsoddi mewn arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac mae'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Arweinydd Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol wedi sefydlu Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Mae ei ffrydiau gwaith yn darparu cyfres o gynhyrchion i gynorthwyo gweithredu lleol ar atal a llesiant, gwasanaeth di-dor 24/7, gofynion digidol a data, gweithlu aml-broffesiynol lleol medrus, cyfathrebu ac ymgysylltu a gweithio mewn clwstwr.

Yn unol â'r ymrwymiadau ar glystyrau yn *Ffyniant i Bawb* a *Cymru Iachach*, bydd rhagor o arian ar gael i'w bennu ar lefel clwstwr, gan godi o £10 miliwn i £20 miliwn o 2020-21 ymlaen.

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd nodi cynigion ar gyfer buddsoddi mewn gofal sylfaenol a symud gofal yn nes at y cartref yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Cyflwynodd byrddau iechyd eu cynlluniau tymor canolig integredig ym mis Ionawr 2019, gan nodi eu bwriadau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn y cynlluniau roedd tystiolaeth gynyddol bod pob sefydliad yn gweithio ar y cyd yn rheolaidd ac mewn ffyrdd integredig gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Roedd gan ymagweddau cydweithredol gysylltiad cryf â gofal sylfaenol a newid gwasanaethau. Yn ogystal, cryfhawyd trefniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a datblygiad dilynol modelau newydd o gynigion gofal/trawsnewid sydd wedi ategu'r ffocws a'r newid i ofal sylfaenol a gofal yn nes at y cartref. Er bod cryn dipyn i'w wneud eto, mae'n amlwg bod gweithredu polisïau sy'n ategu'r newid o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol a chymunedol yn

cydio. Mae hyn yn cael ei ategu ymhellach drwy Gynlluniau Tymor Canolig Integredig clwstwr sy'n bwydo i mewn i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig strategol byrddau iechyd.

Mae'r system TG Dewis Fferyllfa bellach ar gael mewn 98% o fferyllfeydd, gan ategu amrywiaeth cynyddol o wasanaethau gwell, ac sy'n sail i drawsnewid y sector fferylliaeth gymunedol yng Nghymru o'r cyflenwad i'r gwasanaeth. Ers lansio'r Gwasanaeth Mân Anhwylderau ym mis Medi 2013, mae dros 100,000 o ymgynghoriadau wedi eu cwblhau ac mae dros 80% o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dweud y byddent wedi mynd i weld eu meddyg teulu, gwasanaethau y tu allan i oriau neu adrannau damweiniau ac achosion brys pe na bai wedi bod ar gael.

Mae'r system rheoli e-atgyfeirio deintyddol wedi ei gweithredu'n llwyddiannus ym mhob bwrdd iechyd. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i weithredu system gwbl electronig ar gyfer atgyfeiriadau deintyddol ym mhob arbenigedd deintyddol. Bydd cleifion yn gallu olrhain a dilyn penderfyniadau brysbennu a'r gyrchfan atgyfeirio. Bydd byrddau iechyd yn gallu gweld ffynhonnell, cymhlethdod a maint yr holl atgyfeiriadau at bob arbenigedd deintyddol sy'n ategu ailgynllunio gwasanaethau, gan symud allan o'r ysbyty ar gyfer triniaethau y gellir eu darparu drwy fodelau gofal sylfaenol gwell.

Pwysleisiwyd yn ‘Law yn Llaw at Iechyd Meddwl’ a’r cynlluniau cyflenwi ategol ein bwriad i fuddsoddi i wella cymorth yn y gymuned er mwyn galluogi rhagor o bobl i dderbyn gofal yn nes at y cartref. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn mewn cymorth iechyd meddwl cymunedol, rydym wedi gweld gostyngiad mewn derbyniadau i ysbyty iechyd meddwl. Rydym hefyd wedi gweld gweithredu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol newydd ledled Cymru a datblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a thimau cymunedol ymyriadau mewn argyfwng i oedolion.
Mae gweithredu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a gyflwynodd Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, hefyd wedi gwella darpariaeth iechyd meddwl gofal sylfaenol, gyda thros 200,000 o bobl wedi cael eu gweld gan y Gwasanaethau Cymorth ers eu cyflwyno.

Mae ein Cronfa Gofal Integredig a'n cyllid ar gyfer pwysau dros y gaeaf yn parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau ar gyfer datblygu a phrofi modelau integredig newydd i gynorthwyo pobl i aros yn iach, aros gartref ac osgoi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty, gan ddychwelyd adref o'r ysbyty yn brydlon. Bydd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth a chydweithrediad, y gweithlu a seilwaith.

Er enghraifft, mae prosiectau’r Gronfa Gofal Integredig, fel y Model Gofal Gorau yng Ngorllewin Morgannwg (Bae'r Gorllewin, gynt) yn cynnig cyfres o wasanaethau gofal canolraddol i gynorthwyo’r gwaith o ryddhau o'r ysbyty yn gynnar i gartref cymunedol unigolyn. O ganlyniad uniongyrchol i'r gwasanaeth hwn, mae miloedd wedi eu rhyddhau o'r ysbyty'n llwyddiannus, gyda thros 39,000 o welyau wedi eu harbed, sy'n cyfateb i arbediad ariannol oddeutu £5 miliwn.

Enghraifft arall yw lle defnyddiwyd cyllid Awdioleg i wella mynediad at wasanaethau gofal clyw a bwrw ymlaen â'r gwaith o symud gwasanaethau allan o adrannau ENT/awdioleg ysbytai ac i ffwrdd o feddygon teulu i'r clystyrau gofal sylfaenol ehangach. Mae cyllid trosiannol yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu symud ar gyflymder ac ar raddfa i wella canlyniadau i gleifion.

Mae hyn yn unol â nodau allweddol *Cymru Iachach* a'r *Model Gofal Sylfaenol i Gymru* a'r *Fframwaith Gweithredu Clyw*.

9. Iechyd Meddwl

Rydym yn parhau i wario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag unrhyw ran arall o'r GIG ac rydym wedi cynyddu'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG i dros £700 miliwn yn 2020-21. Mae'r cynnydd yn y cyllid a neilltuwyd yn 2020-21 yn cynnwys trosglwyddo £7.2 miliwn a ddyrannwyd yn 19-20 fel rhan o'r cyllid ar gyfer *Cymru Iachach* a £7 miliwn mewn perthynas â Chronfa Arloesi a Thrawsnewid y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a sefydlwyd hefyd yn 19-20.

Drwy 'Cymru Iachach' a'r gyllideb Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl, mae cronfa gwella gwasanaethau o £14.2 miliwn wedi ei dyrannu i fyrddau iechyd i ddatblygu cynigion i wneud gwelliannau yn unol â meysydd blaenoriaeth a nodwyd. Mae'r meysydd blaenoriaeth wedi eu llunio ar sail nifer o adroddiadau gan Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol, 'Cadernid Meddwl' (cymorth iechyd emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc) a 'Busnes Pawb' (atal hunanladdiad) a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu *Cynllun Cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22*. Y meysydd blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer gweithredu, a nodir yn y cynllun cyflawni, yw:

- **Atal iechyd meddwl gwael a chynnal llesiant meddyliol** - drwy waith wedi ei dargedu ar atal a gweithredu traws-Lywodraethol ar benderfynyddion ehangach iechyd meddwl a llesiant.
- **Gwella mynediad at gymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc** - gwella mynediad a sicrhau gwelliannau cynaliadwy i amseroldeb ymyriadau, ynghyd ag ategu'r cwricwlwm newydd a'r ymagwedd ysgol gyfan, gan ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau'r GIG i ysgolion a llenwi bylchau mewn gwasanaethau o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd drwy'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Gwelliannau pellach i'r **ddarpariaeth mewn Argyfwng ac y Tu Allan i Oriau ar gyfer plant ac oedolion** - gan symud at ddarpariaeth amlasiantaethol gyffredinol ledled Cymru
- **Gwella mynediad, ansawdd ac amrywiaeth y therapïau seicolegol ar draws pob oedran** - sicrhau gostyngiad sylweddol mewn amseroedd aros erbyn diwedd y Llywodraeth hon, cynyddu'r amrywiaeth o therapïau a gynigir a chynorthwyo'r gweithlu i ddarparu'r ymyriadau hyn i wella profiad y defnyddwyr gwasanaethau;
- **Gwella mynediad ac ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol** - datblygu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ymhellach gan gynnwys mewn perthynas â safonau ansawdd a llwybrau gofal a darparu darpariaeth cleifion mewnol.
- Gwella **ansawdd a mynediad at wasanaethau wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adferiad** - gan gynnwys ymateb i adolygiadau thematig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru/Arolygiaeth Gofal Cymru, adolygiadau gan Uned Gyflawni'r GIG a chael sicrwydd bod argymhellion wedi eu cyflawni.
- Cynorthwyo **grwpiau agored i niwed** - gan ganolbwyntio ar welliannau i wasanaethau ar gyfer anhwylderau bwyta, troseddwyr a materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.

Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn a chamau gweithredu cysylltiedig yn seiliedig ar nifer o ffrydiau gwaith trosfwaol a fydd yn parhau y tu hwnt i oes y cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu set ddata graidd iechyd meddwl, datblygu cynllun gweithlu ar gyfer iechyd meddwl, gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl Cymraeg a chryfhau ymgysylltu rhwng defnyddwyr gwasanaethau a'r trydydd sector ar draws gwelliannau polisi a gwasanaethau.

Fe wnaethom ymgynghori ar y cynllun cyflawni dros haf 2019, a'n bwriad yw cyhoeddi'r cynllun terfynol ym mis Ionawr 2020.

Rydym wedi ailddatgan ein hymrwymiad i wella iechyd meddwl drwy ei bennu fel un o chwe maes blaenoriaeth yn unig yn ein Strategaeth Genedlaethol - *Ffyniant i bawb*. Mae hyn nid yn unig yn herio'r sector iechyd, ond Llywodraeth Cymru i gyd, i ystyried ei heffaith ar iechyd meddwl ar draws popeth mae'n ei wneud. Mae Cymru Iachach yn herio'r holl wasanaethau, gan gynnwys iechyd meddwl, i symud tuag at well integreiddio, cydgynhyrchu ac ymagwedd fwy cyfannol at drin afiechyd meddwl a chorfforol. Mae'r blaenoriaethau yng *Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22* i gyd yn gysylltiedig â nodau pedwarplyg *Cymru Iachach*. Enghraifft o gynnydd wrth sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl a chorfforol yw ein gwaith i fynd i'r afael â stigma ynghylch gwella dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl, gyda rhagor o bobl yn cael cymorth erbyn hyn.

10. TGCh

Fel rhan o *Cymru Iachach*, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ategu trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol drwy wneud y defnydd gorau o elfennau digidol, data a thechnoleg. Sicrhawyd buddsoddiad ychwanegol sylweddol o hyd at £50 miliwn yn 2019-20 ar draws 5 maes blaenoriaeth, yn gysylltiedig â threfniadau cyflenwi ac arwain cryfach a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

- Gwasanaethau i'r cyhoedd a chleifion
- Gwasanaethau i weithwyr proffesiynol
- Diogelwch a chadernid seiber
- Moderneiddio dyfeisiau a gwasanaethau parod i'r cwmwl
- Buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus

Cwblhawyd adolygiadau annibynnol o Lywodraethu Digidol a Phensaernïaeth Ddigidol, gan asesu gallu yn erbyn y weledigaeth ar gyfer elfennau digidol a data a nodwyd yn Cymru Iachach. Mae argymhellion yr adolygiadau hyn wedi llywio penderfyniadau ar gyfluniad iechyd a gofal digidol yn y dyfodol, a nodwyd mewn datganiad ysgrifenedig ar 30 Medi. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sefydlu Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal, trosglwyddo Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, a phedwar adolygiad strategol pellach. Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gydag Arweinwyr Digidol y GIG a chyda Chyfarwyddwyr Cyllid y GIG i gadarnhau'r blaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer buddsoddiad digidol, gyda chymorth £50 miliwn o gyllid ar gyfer 2019-20 a £50 miliwn arall o gyllid ychwanegol yn 2020-21. Bydd Adolygiad Seilwaith Digidol yn adeiladu ar y gwaith hwn a gwaith blaenorol a wnaed i asesu'r buddsoddiad ychwanegol sy'n ofynnol mewn seilwaith a gwasanaethau digidol, dros y tymor canolig.

11. Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Yn ‘Dyfodol Mwy Disglair i Gymru’, rydym yn nodi’n fanwl y dystiolaeth sy’n dangos mai aros yn yr UE fyddai orau i Gymru, felly rydym wedi bod yn galw am refferendwm gyda’r opsiwn o aros yn yr UE ar y papur pleidleisio. Er bod Llywodraeth Cymru yn amlwg yn ffafrio’r safbwynt hwn, rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer ystod o ganlyniadau posibl. Yn y cyd-destun hwn, mae’r ansicrwydd sy’n ymwneud ag amseriad, natur ac effaith ymadawiad y DU o’r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn parhau i achosi heriau wrth gynllunio cyllidebau.

Y dyraniad cyllideb cyfredol ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yw £260,000 ac mae'n cynnwys cymorth â gweithgareddau yng Nghydffederasiwn GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â diogelwch iechyd ac Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru mewn perthynas â swyddogaethau newydd.

Mae'r Pwyllgor wedi cael ei friffio o'r blaen ar y paratoadau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol pe bai’r Deyrnas Unedig yn ymadael heb gytundeb. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu cyflwyno ar gyfer unrhyw ymadawiad posibl heb gytundeb yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cwmpasu costau canlyniadol prynu lle mewn warysau ychwanegol i sicrhau parhad cyflenwad a chostau cymryd rhan mewn trefniadau ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer dyfeisiau meddygol, nwyddau traul clinigol a rhaglenni tarfu ar gyflenwadau meddyginiaethau.
Pe byddai’r DU yn ymadael â’r UE, byddwn yn gallu asesu a meintioli ein hymatebion polisi yn well o ran effaith tymor canolig unwaith y bydd natur yr ymadawiad yn hysbys. Yn benodol, bydd hyn yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r gweithlu yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol; gweithgareddau ymchwil ac arloesi yn y dyfodol, trefniadau ar gyfer Cronfa Ffyniant y Deyrnas Unedig a'r angen cynyddol am ymgysylltu rhyngwladol.

ATODIAD A

Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y **MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a'r Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2019).**

Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
7664.880	8003.570	338.690

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ategu'r prif gyllid i'r GIG yng Nghymru yn ogystal â chyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chorff newydd y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu Cyflawni Gwasanaethau Craidd y GIG** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 oherwydd:

- **£385.000 miliwn** o gyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ychwanegol
- **£(10.000) miliwn** mewn perthynas â'r Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gyflawni Camau Gweithredu wedi eu Targedu Gwasanaethau'r GIG
- **£(5.500) miliwn** mewn perthynas â'r rhaglen Pwysau Iach: Cymru Iach

- **£(20.000) miliwn** mewn perthynas â'r pwysau ar y cynnig Gofal Plant i'r Cam Gweithredu Cymorth i Blant
- **£(3.500) miliwn** mewn perthynas â'r dull Dechrau'n Deg i Gyflawni Camau Gweithredu wedi eu Targedu Gwasanaethau'r GIG
- **£(2.300) miliwn** i adfer cyllid ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn y Cam Gweithredu Cymorth i blant
- **£(0.5) miliwn** mewn perthynas â'r Ymagwedd Ysgol Gyfan at Gyflawni Camau Gweithredu wedi eu Targedu Gwasanaethau'r GIG
- **£(0.600) miliwn** mewn perthynas â'r (Bil Diddymu Amddiffyn Cosb Resymol) (Cymru) i'r Cam Gweithredu Cymorth i Blant
- **£ (0.260) miliwn** o Gyllid Trosiannol yr Undeb Ewropeaidd, gyda £0.133 miliwn ohono i Gyflawni Cam Gweithredu Gwasanaethau wedi eu Targedu'r GIG a £0.127 miliwn i Gam Gweithredu'r Asiantaeth Safonau Bwyd
- **£7.200 miliwn** mewn perthynas â chyllid iechyd meddwl i ddyraniad Byrddau Iechyd
- **£0.500 miliwn** mewn perthynas â chyllid Hunaniaeth Rhywedd i ddyraniad Byrddau Iechyd
- **£0.300 miliwn** mewn perthynas â chyllid Dysgu a alluogir gan Dechnoleg yn trosglwyddo i Wasanaethau a Rennir GIG Cymru o Gam Gweithredu Cymorth Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG
- **£0.250 miliwn** mewn perthynas â chyllid ffoaduriaid a cheiswyr lloches o'r Cam Gweithredu Cyflawni Gwasanaethau wedi eu Targedu'r GIG
- **£0.068 miliwn** mewn perthynas â chyllid Rhoi'r Gorau i Ysmygu i ddyraniad Byrddau Iechyd
- Addasiad dibrisiant o **£0.020 miliwn** mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Cymru
- **£(1.988)** miliwn i wrthdroi trosglwyddiad anghylchol o gontract GMS mewn perthynas ag Ystadau Gofal Sylfaenol
- **£(10.000) miliwn** i ailddyrannu adnoddau o fewn y MEG i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi eu Targedu.

Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau wedi eu Targedu'r GIG		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
93.827	108.966	15.139

Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu cyllidebau iechyd amrywiol eraill, gan gynnwys Gweithlu'r GIG (nad ydynt wedi eu trosglwyddo i AaGIC ar hyn o bryd), ac mae hefyd yn cynnwys y BEL *Cymru Iachach* newydd.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu Gwasanaethau Craidd wedi eu Targedu'r GIG** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 oherwydd:

- **£10.000 miliwn** o arian newydd mewn perthynas â Grant Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Gam Gweithredu Cyflawni Dyraniadau Craidd y GIG

- **£3.500 miliwn** o arian newydd mewn perthynas â'r dull Dechrau'n Deg drwy Gam Gweithredu Cyflawni Dyraniadau Craidd y GIG
- **£0.500 miliwn** o arian newydd mewn perthynas â'r Ymagwedd Ysgol Gyfan drwy Gam Gweithredu Cyflawni Dyraniadau Craidd y GIG
- **£10.000 miliwn** ailddyrannu adnoddau o fewn y MEG drwy Gyflawni Dyraniadau Craidd y GIG
- **£1.988 miliwn** i wrthdroi trosglwyddiad anghylchol o gontract GMS mewn perthynas ag Ystadau Gofal Sylfaenol
- **£0.250 miliwn** ailddyrannu adnoddau yn y MEG mewn perthynas ag Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **£0.142 miliwn** ailddyrannu adnoddau yn y MEG mewn perthynas ag Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **£0.133 miliwn** o gyllid trosiannol yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â Chydffederasiwn y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **£(0.500) miliwn** mewn perthynas â Hunaniaeth Rhywedd i Ddyraniad Byrddau Iechyd o fewn Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG
- **£(7.200) miliwn** mewn perthynas â chyllid iechyd meddwl i ddyraniad Byrddau Iechyd o fewn Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG
- **£(1.330) miliwn** trosglwyddo i'r MEG Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG i'r setliad Grant Cynnal Refeniw.
- **£(0.730) miliwn** trosglwyddo 'ri MEG Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas ag Arolygiaethau Iechyd Cymru
- **£(0.414) miliwn** i CAFCASS mewn perthynas â chostau staffio uwch

Cam Gweithredu: Ategu Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
26.095	25.795	(0.300)

Mae addysg a hyfforddiant yn sylfaenol i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn y GIG yn y dyfodol. Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir i gynorthwyo'r gwaith o sicrhau gweithlu cynaliadwy sy'n meddu ar y sgiliau i fynd i'r afael â'r gofynion ar y gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol. Mae mwyafrif yr arian yn y cam gweithredu hwn yn talu am y costau ychwanegol a ysgwyddir gan Fyrddau Iechyd Prifysgol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar gyfer dysgu (cynnal) myfyrwyr meddygol a deintyddol fel rhan o'u hastudiaethau israddedig. Yn ogystal, mae'n ategu hyfforddi nifer o leoliadau hyfforddi ôl-raddedig ledled Cymru, gan gynnwys swyddi academaidd clinigol. Mae cyllid o fewn y cam gweithredu hwn hefyd yn ategu dyfarniadau rhagoriaeth glinigol Ymgynghorwyr a roddir am ansawdd, rhagoriaeth a chyfraniadau personol eithriadol

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 o ganlyniad i (£0.300) miliwn mewn

perthynas â chyllid Dysgu a alluogwyd gan Dechnoleg yn trosglwyddo i Wasanaethau a Rennir GIG Cymru

Cam Gweithredu: Ategu Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
3.279	3.029	(0.250)

Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu amrywiaeth o

- Gamau datblygu a darparu polisi iechyd meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), therapïau seicolegol, atal hunanladdiad a hunan-niweidio, cymorth iechyd meddwl amenedigol a chyllid ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector drwy'r grant iechyd meddwl adran 64

- Deddfwriaeth iechyd meddwl, gan gynnwys Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid

- Anghenion gofal iechyd grwpiau agored i niwed, (y rhai a ddiffinnir fel rhai sydd â nodweddion gwarchodedig) gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, cymorth i gyn-filwyr, gofal iechyd troseddwyr, canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, sipsiwn a theithwyr ac unigolion trawsryweddol.

Mae newidiadau i'r **Cam Gweithredu Polisïau a Deddfwriaeth Cymorth Iechyd Meddwl** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 o ganlyniad i drosglwyddo cyllid i gyllideb iechyd meddwl wedi ei neilltuo, sydd wedi ei chynnwys yn nyraniadau byrddau iechyd.

Cam Gweithredu: Cyflwyno Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2019-20 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
26.325	26.325	-

Mae mwyafrif y cyllid camddefnyddio sylweddau yn y cam gweithredu hwn (£22.663 miliwn) yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Cynllunio Ardal drwy fformiwla cyllido i'w helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' a'r Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau diweddaraf 2016-18.

O dan y gyllideb hon, mae £2.75 miliwn, £1 miliwn a £0.300 miliwn o'r cyllid i Fyrddau Cynllunio Ardal wedi ei neilltuo ar gyfer plant a phobl ifanc, Haen 4 (adsefydlu preswylwyr a dadwenwyno cleifion mewnol) a gwasanaethau cwnsela yn y drefn honno.

Mae'r cyllid yn ategu dyraniadau camddefnyddio sylweddau Byrddau Iechyd Lleol (tua £18 miliwn) ac fe'i defnyddir i gomisiynu/prynu amrywiaeth o fentrau addysg, triniaeth atal a gorfodi.

Mae gweddill y cyllid o fewn y Cam gweithredu yn ategu'r canlynol:

- Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (£1.98 miliwn) - nod y Rhaglen yw gweithredu mewn 100% o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru i ddarparu addysg gyson ar gamddefnyddio sylweddau ar bob cam allweddol o'r cwricwlwm.
- Mentrau Cyffuriau ac Alcohol (£1.002 miliwn) - mae'r gyllideb hon yn cynnwys nifer o feysydd gwaith sy'n gweithredu Cynllun Cyflenwi Camddefnyddio Sylweddau 2016-18, drwy ymchwil, datblygu polisi a monitro gwaith sy'n gysylltiedig ag ymyriadau cyffuriau ac alcohol. Mae hefyd yn ategu gwaith ac adnoddau ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), a fydd, yn y dyfodol, yn cynnwys costau cysylltiedig ar gyfer cyfathrebu, gwerthuso a gweithredu.
- Mae hefyd yn cynnwys cyfraniad cyllid cyfatebol o £0.830 miliwn i'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Allan o Waith - Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gyllidir ar y cyd ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

Cam Gweithredu: Asiantaeth Safonau Bwyd		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
3.610	3.737	0.127

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru. Darperir y dyraniad cyllideb hwn i gwrdd â chost y blaenoriaethau gwaith a nodir yng 'Nghytundeb Darparu Gwasanaeth Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru' yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Darperir yr arian ar y sail y bydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, lle mae budd ar y cyd, yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i blaenoriaethau, gan gynnwys cymorth parhaus i gyflawni a gweithredu cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru, fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Yn ogystal, bydd anghenion Cymru yn cael eu hystyried yn unol â Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru mewn ymateb i 'Rheoleiddio ein Dyfodol' wrth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ddatblygu ei rhaglen diwygio rheoleiddio.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu'r Asiantaeth Safonau Bwyd** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 o ganlyniad i gyllid ychwanegol o Gronfa Drosiannol yr Undeb Ewropeaidd i ategu costau staff ychwanegol i ategu paratoadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Cam Gweithredu: Rhaglenni Iechyd Cyhoeddus		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
19.619	24.659	5.040

Mae'r cam gweithredu hwn yn cyllido amrywiaeth o raglenni iechyd cyhoeddus fel:

- Trawsblannu Organau a Meinwe
- Imiwneiddio
- Taliadau i Iechyd Cyhoeddus Lloegr sy'n darparu nifer o wasanaethau amddiffyn iechyd arbenigol a rhai gwasanaethau labordy cyfeirio i Gymru.
- Cychwyn Iach
- NICE

Mae newidiadau i Gam Gweithredu'r Asiantaeth Safonau Bwyd rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 o ganlyniad i:

- £5.500 miliwn o gyllid newydd mewn perthynas â Phwysau Iach: Cymru Iach.
- £(0.460) miliwn ailddyrannu adnoddau yn y MEG mewn perthynas ag Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cam Gweithredu: Trefniadau Parodrwydd am Argyfwng Iechyd Effeithiol		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
6.025	6.025	-

Mae'r cam gweithredu hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod GIG Cymru yn gwbl barod ac yn gydnerth i ddelio â'r amrywiaeth lawn o beryglon a bygythiadau a nodwyd mewn Asesiadau Risg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y risg uchaf o bandemig ffliw a rheoli canlyniadau iechyd digwyddiad terfysgol sy'n cynnwys deunyddiau peryglus.
Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

Cam Gweithredu: Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
42.075	42.075	-

Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu gwaith Adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n arwain ar strategaeth, polisi,

comisiynu, cyllido, rheoli contractau a llywodraethu ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy ei 'brand allanol', Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu yn darparu seilwaith i ategu a chynyddu capasiti mewn Ymchwil a Datblygu, yn rhedeg amrywiaeth o gynlluniau cyllido ymatebol ac yn rheoli adnoddau i hyrwyddo, cynorthwyo a darparu ymchwil. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau partneriaeth a thraws-gyllidwr lle mae'r rhain yn dod â manteision i Gymru. Mae'n cefnogi ymchwil drosiadol sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymchwil iechyd cymhwysol ac iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i atal, canfod a gwneud diagnosis o afiechydon; datblygu a gwerthuso ymyriadau; a darparu, trefnu a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio i gynorthwyo gweithredu canfyddiadau ymchwil yn ymarferol.

Mae gan yr Is-adran gysylltiadau allweddol o fewn Llywodraeth Cymru â thimau Gwyddorau Bywyd ac Arloesi Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr sydd â rolau tebyg yng nghenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig, cynghorau ymchwil y Deyrnas Unedig, cyllidwyr ymchwil eraill a'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol a Chymorth		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
4.562	4.562	-

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth a Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau.

Mae'r rhaglen waith ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth Oedolion yn bennaf yn ategu gweithrediad parhaus Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ac yn hyrwyddo agenda ataliol i wella canlyniadau i blant ac oedolion sydd mewn perygl. Yn 2019-20 bydd gweithredu'r NPP (Gweithdrefnau Diogelu Cymru bellach) yn flaenoriaeth, gan gynorthwyo Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fwrw ymlaen â hyn, ynghyd â chefnogaeth barhaus i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Mae rôl Byrddau Diogelu yn cwmpasu atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed.

Mae hefyd yn cyllido rhaglenni gwaith i gynorthwyo gofalwyr i gyflawni eu rolau fel gofalwyr a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ar yr un pryd. Mae hyn yn ganolog i sicrhau bod yr hawliau i ofalwyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud gwahaniaeth o ddifri wrth gefnogi gofalwyr, ac mae'n cynnwys elfen gref o fuddsoddi i arbed gan

yr amcangyfrifir bod gofalwyr anffurfiol, di-dâl yn darparu 96% o'r gofal yng Nghymru, gofal y byddai'n rhaid ei ddarparu o gyllidebau gofal cymdeithasol fel arall.

Ym mis Mehefin 2018, lansiwyd cyllid i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu rhaglenni i wella cyfleoedd bywyd pobl anabl ac yn benodol y Rhaglen Gwella Bywydau i Bobl ag Anabledd Dysgu. Defnyddir cyllid hefyd i symud ymlaen o fewn y Fframwaith Gweithredu i Bobl sydd â'r Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu Gofal a Chymorth i Bobl sy'n Fyddar neu sy'n Byw gyda Cholled Clyw.

Mae'r Cyllid hefyd yn ategu'n rhannol cyflawni Cynllun Gweithredu Strategol Anhwylderau yn y sbectrwm awtistig 2016 a'r cynllun cyflawni, gan gynnwys cymorth i'r Tîm Datblygu Cenedlaethol Anhwylderau yn y sbectrwm awtistig a gynhelir gan CLlLC i ategu'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau strategol. Bydd hyn yn cynnwys cyngor mewn perthynas â phasio'r Bil Awtistiaeth (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2018.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

Cam Gweithredu: Partneriaethau ac Integreiddio		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
0.606	0.526	(0.080)

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid i gynorthwyo ag integreiddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae hefyd yn cyllido gwelliannau i gyngor ac arweiniad ar ofal iechyd parhaus a ddylai helpu pobl i gael gafael ar y cymorth sydd ei hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae hefyd yn ategu'r gwaith o ystyried ardoll gofal cymdeithasol sy'n cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus a chydnerth drwy ystyried dewisiadau i ddarparu'r cyllid a ragwelir yn y dyfodol i ateb y gofynion cynyddol am ofal cymdeithasol sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu Partneriaethau ac Integreiddio** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 o ganlyniad i ailddyrannu adnoddau o fewn y MEG, mewn perthynas â throsglwyddo i Gofal Cymdeithasol Cymru

Cam Gweithredu: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
11.315	11.215	(0.100)

Mae mwyafrif y Cam Gweithredu hwn (£6.8 miliwn) yn cyllido'r grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae 32 o brosiectau yn cael cymorth yn dilyn rownd fidio gystadleuol, sy'n cynorthwyo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal, pobl hŷn, pobl anabl a gofalwyr. Bydd y dyraniad cyllid ar gyfer y grant hwn yn cael ei gynyddu £1.2 miliwn yn 20-21.

Defnyddir balans yr arian yn y Cam Gweithredu hwn (£4.5 miliwn) i ategu'r gwaith o gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 (RISCA) a gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, sy'n cyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gwella llesiant ac yn rhoi pobl a'u hanghenion yng nghanol yr holl ofal a chymorth. Mae ein hegwyddorion yn cynnwys meithrin ymarfer sy'n hyrwyddo llais a rheolaeth, annibyniaeth, cydgynhyrchu, gofal ac atal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymagweddau ymyriadau cynnar.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu'r Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 o ganlyniad i

- (£1.300 miliwn) ailddyrannu adnoddau o fewn MEG mewn perthynas â throsglwyddo i Gofal Cymdeithasol Cymru
- Dyraniad ychwanegol o £1.200 miliwn ar gyfer Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol

Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol Cymru		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
18.038	19.398	1.360

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid cymorth grant i Gofal Cymdeithasol Cymru, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Cyllidir Gofal Cymdeithasol Cymru i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, magu hyder ymysg y gweithlu, ac arwain a chefnogi gwelliant mewn gofal cymdeithasol.

Ymhlith y blaenoriaethau allweddol mae:

- pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith
- datblygu'r gweithlu fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i amddiffyn, grymuso a chynorthwyo'r rhai sydd angen help
- gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol
- Pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- rhannu arfer da gyda'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau
- darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 o ganlyniad i ailddyrannu adnoddau o fewn y MEG fel a ganlyn:

- £1.380 miliwn mewn perthynas â throsglwyddiad cyllideb o'r cam gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r cam gweithredu Partneriaethau ac Integreiddio. Mae hyn yn bennaf yn ategu'r gwaith o ehangu cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol.
- £(0.020) miliwn mewn perthynas ag addasu dibrisiant

Cam Gweithredu: Comisiynydd Pobl Hŷn		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
1.589	1.589	-

Mae'r cam gweithredu hwn yn cyllido Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, comisiynydd statudol annibynnol. Diffinnir rôl a phwerau statudol y Comisiynydd gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau cysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau y gall y Comisiynydd eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn mewn rhai sefyllfaoedd.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynhyrchu a chyflwyno amcangyfrif o incwm a gwariant ei swyddfa, a fydd yn cael ei archwilio gan Weinidogion Cymru a'i gyflwyno gerbron y cynulliad cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Cyflwynodd y Comisiynydd blaenorol ei hamcangyfrif incwm a gwariant blynyddol ddiwedd 2017, gan ddangos yr angen am sefydlogrwydd cyllid. Mae'r angen am blatfform sefydlog o gyllid yn 2020-21 yn parhau. Yn ogystal â chostau gweithredu, mae rhaglenni gwaith allweddol yn rhedeg dros flynyddoedd ariannol, a byddant yn parhau yn 2020-21 - er enghraifft, Heneiddio'n Dda yng Nghymru; gweithio i ategu eiriolaeth mewn cartrefi gofal a rhagor o bobl yn manteisio ar wasanaethau eiriol i oedolion; Adolygiadau Adran 3; gwaith hawliau pobl hŷn a hawliau dynol, gwaith achos yn cynorthwyo pobl hŷn sy'n cysylltu â'r Comisiynydd i gael cymorth a chyngor.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

Cam Gweithredu: Cymorth i blant		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019	**Cyllideb Ddrafft 2020-21**	**Newid**

£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
49.915	72.815	22.900

Mae mwyafrif y cyllid yn y cam gweithredu hwn yn ategu'r cynnig gofal plant (sy'n destun craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid y cam gweithredu hwn ar gyfer Grant Pontio Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid ar gyfer nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed sy'n cynorthwyo plant sydd wedi eu mabwysiadu i sicrhau bod ganddyn nhw a'u teulu y mynediad angenrheidiol at wasanaethau cymorth i ddechrau eu bywyd teuluol.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu Cymorth i Blant** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 yn gysylltiedig â:

- £20.000 miliwn o arian newydd mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant
- £2.300 miliwn mewn perthynas â phlant sy'n agored i niwed
- £0.600 miliwn o gyllid newydd mewn perthynas â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Cam gweithredu: CAFCASS Cymru		
Cyllideb Atodol 2019-20 Mehefin 2019 £ miliwn	**Cyllideb Ddrafft 2020-21 £ miliwn**	**Newid £ miliwn**
11.738	12.152	0.414

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol sy'n cael ei arwain ar sail galw, sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teulu, gan sicrhau bod ein hymyriadau'n hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu lles a'u budd pennaf er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teulu yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teulu a gwasanaethau i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant o Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi. O'r gyllideb o £10.267 miliwn, mae 92% i'w briodoli i gostau staffio ac 8% i gostau gwasanaethau a seilwaith a gomisiynwyd. Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i gynorthwyo rhieni sydd wedi gwahanu, pan fydd y Llys Teulu yn rhoi cyfarwyddyd iddynt gael cyswllt â'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd er Lles Plant, sy'n cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn cael y brif flaenoriaeth.

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu CAFCASS** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 oherwydd cynnydd mewn costau staffio, fel a ganlyn:

- Dyfarniad tâl 2019-20 £0.229 miliwn
- Dyfarniad tâl 2020-21 £0.113 miliwn (yn seiliedig ar 1%)
- Cynnydd o £0.072 miliwn yng nghyfraniad y cyflogwr at bensiynau